# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 19 Mawrth 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2025 i 2026 |
| **Adroddiad gan:** | Dyfan Sion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am benderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2025 i 2026 |

## 1. Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforedig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

## 1.1 Ymgynghoriad ar yr adroddiad blynyddol drafft

Cynhaliodd y Panel ymgynghoriad ar ei adroddiad drafft rhwng 4 Hydref a 29 Tachwedd 2024. Fe drafododd y Pwyllgor hwn yr adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2024.

Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r penderfyniadau terfynol a fydd yn weithredol o Ebrill 2025.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# 2. Penderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2025 i 2026 – y newidiadau

## 2.1 Taliadau i aelodau etholedig

Mae'r tabl isod yn rhestru'r swyddi sydd â hawl i uwch gyflog yn 2024 i 2025 ac yn cymharu'r cyflogau cyfredol â'r cyflogau a fydd yn daladwy o Ebrill 2025:

| **Rôl / Swydd** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £18,666 | **£19,771** |
| **Band 1**: | | |
| Arweinydd | £59,498 | **£63,020** |
| Dirprwy Arweinydd | £41,649 | **£44,114** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £35,699 | **£37,812** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Cyngor | £27,999 | **£29,657** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £27,999 | **£29,657** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £22,406 | **£23,726** |

Mae'r cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ('y cap') yn parhau ar 17, gan gynnwys cyflogau dinesig.

Bydd angen i'r Cyngor llawn gadarnhau nifer yr uwch gyflogau a fydd yn daladwy yn 2025 i 2026 yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2025.

## 2.3 Taliadau eraill

Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r cyflogau a'r lwfansau a delir. Caiff yr holl benderfyniadau cyfredol eu cyhoeddi ar wefan y Panel.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 3. Trosglwyddo swyddogaethau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Dyma adroddiad blynyddol olaf y Panel. Yn unol â'r Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, bydd swyddogaethau'r Panel yn trosglwyddo i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

Mae'r Panel wedi llunio adroddiad etifeddiaeth er mwyn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo swyddogaethau i'r Comisiwn.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r penderfyniadau o fewn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2025 i 2026 (Chwefror 2025).

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026:

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.